Cofnodion wedi'i Gadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd
ar 27 Gorffennaf 2023
Cynhaliwyd yn 3.7, CQ2 ac yn electronig dros Microsoft Teams
Ffrydiwyd yn fyw dros y Rhyngrwyd

WEDI'I GADARNHAU

Yn Bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
Yn bresennol:		
Rocio Cifuentes	(RC)	Comisiynydd Plant Cymru
Anwen Jones	(AJ)	Llysgennad Ifanc - Wrecsam
Ben White	(BW)	Llysgennad Ifanc - Wrecsam
Ioan Beecham	(IoB)	Llysgennad Ifanc - Caerffili
Indy Bryant	(InB)	Llysgennad Ifanc - Caerffili
Gracie Lowther	(GL)	Llysgennad Ifanc - Sir Benfro
Lacy Roberts	(LR)	Llysgennad Ifanc - Sir Benfro
David Twigge	(DT)	Llysgennad Ifanc - Castell-nedd a Phort Talbot
Dominique Bird	(DB)	Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Gwella Ansawdd, yn cynrychioli John Boulton
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Paul Daulton	(PD)	Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Claire Sullivan	CS	Cynrychiolydd y Staff
Zoe Wallace	(ZW)	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Junaid Iqbal	(JI)	Arweinydd Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid, a Phennaeth yr Is-adran Gyllid
Ymddiheuriadau:		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol), Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am

PHW 2023.07.27/1	**Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai oedd yn arsylwi'r trafodaethau ar-lein. Rhoddodd grynodeb o rolau penodol a chyd-rolau Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol y Bwrdd, a oedd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Bwrdd Unedol. Dyma Gorff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: bennu cyfeiriad strategol; creu a chynnal partneriaethau strategol; pennu parodrwydd i dderbyn risgiau strategol a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau; cynnal trefniadau llywodraethu da a phennu naws a diwylliant y sefydliad.

O ran tôn a diwylliant, mabwysiadodd y Bwrdd ddiwylliant o ddysgu; nid aeth pethau yn ôl y disgwyl, ymddiheurodd y Bwrdd, mynd ati i unioni pethau a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Hyrwyddodd y Bwrdd ddiwylliant lle gallai pawb ddod i'r gwaith a bod y gorau ohonyn nhw eu hunain, heb ofni anfantais na gwahaniaethu o unrhyw fath, gan gynnwys unrhyw fath o ymddygiad ffobig. Roedd gan y Bwrdd ymagwedd dim goddefgarwch tuag at hyn ac anogodd JW unrhyw un sy'n destun gwahaniaethu o'r fath i ddefnyddio'r prosesau sydd ar gael i'w galw allan. Gofynnodd hefyd i unrhyw un sy'n gweld/clywed am unrhyw wahaniaethu o'r fath roi gwybod amdanynt.

Cynhaliodd y Bwrdd ei fusnes yn unol ag ymddygiad ffurfiol y Bwrdd; roedd hyn yn darparu ar gyfer darllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, gan wneud y gorau o'r amser sydd ar gael i'w drafod ar y diwrnod. Cadwodd y Bwrdd hefyd at Werthoedd

WEDI'I GADARNHAU

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cydweithio gydag Ymddiriedaeth a Pharch, er mwyn Gwneud Gwahaniaeth.

Rhoddodd JW drosolwg o'r agenda, gan nodi'n arbennig y cyflwyniadau partneriaeth strategol gan Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru, a grŵp cynrychioliadol o Lysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Nododd y Bwrdd **ymddiheuriadau** gan Tracy Cooper, John Boulton, Diane Crone a Huw George.

PHW 2023.07.27/2	**Datgan Buddiannau**

Ni wnaeth aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

PHW 2023.07.27/3	**Partneriaeth Strategol**
PHW 2023.07.27/3.1	**Comisiynydd Plant Cymru**

Ar ran y Bwrdd estynnodd JW groeso cynnes i RC, Comisiynydd Plant Cymru, a oedd yn ymuno â'r Bwrdd am y tro cyntaf yn y rôl hon. Dywedodd wrth RC fod Llysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal digwyddiad preswyl dau -ddiwrnod yn yr adeilad, ac wedi ymuno â chyfarfod y Bwrdd. Yna cafodd RC ei gwahodd gan JW i rannu'r blaenoriaethau strategol a fyddai'n sail i'w thymor yn y swydd.

Gan ddefnyddio cyflwyniad sleidiau, tynnodd RC sylw at y canlynol:

- Ei buddsoddiad cychwynnol o ran treulio amser yn gwrando ar blant a phobl ifanc ledled Cymru; roedd hyn wedi arwain at y Strategaeth tair blynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi'i llywio hefyd gan arolwg cenedlaethol a gynhaliwyd yn 2022, a oedd yn cynnwys dros 8000 o blant a phobl ifanc.
- Y swyddogaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Comisiynydd gan gynnwys: mewnbwn polisi a chyngor; gwaith achos ymchwiliol; a chymryd rhan.
- Y weledigaeth ar gyfer y Swydd o godi llais dros blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu diogelu.
- Y gwaith a wneir i ailddiffinio diben y Swydd yn bedwar maes gwaith penodol:
  (i) Pwyslais ar amrywiaeth, gweledegdd a hygyrchedd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc;
  (ii) Gweithredu fel 'gwiriwr hawliau', yn helpu plant a phobl ifanc i adnabod eu hawliau;
  (iii) Bod yn 'gofnodwr y gwirionedd i'r grymoedd' drwy ddigwyddiadau, cynadleddau a'r cynllun cyfathrebu;
  (iv) Gweithredu fel heriwr i Weinidogion Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.
- Y gwaith a wneir ar anghydraddoldebau a'r effaith ar blant difreintiedig; roedd hyn wedi nodi bod tlodi bwyd a bwlio ar sail hunaniaeth mewn ysgolion yn faterion allweddol ac wedi ysgogi gwaith prosiect penodol.

WEDI GADARNHAU

Nododd RC y synergedd rhwng ei blaenoriaethau hi a rhai Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r cyfleoedd i'r ddau sefydliad gydweithio a sicrhau gwell budd i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Diolchodd JW i RC am ei chyflwyniad ysbrydoledig a gwahoddodd sylwadau a chwestiynau:

Croesawodd SA y ffocws ar dlodi a throi at rôl tlodi bwyd a sut y byddai ei effaith yn ymestyn i'r dyfodol, gan effeithio ar lesiant yn y tymor hir. Cytunodd RC a chyfeirio at y gwaith cydweithredol cynhyrchiol a wnaed gydag SA i ddatblygu argymhellion ac atebion ar y cyd.

Holodd KY am y bwriad i dynnu prydau ysgol am ddim yn ôl yng Nghymru dros gyfnod gwyliau'r ysgol a'r effaith ar yr agenda atal. Amlinellodd RC ei phryderon a nododd rôl a gwerth darpariaeth o'r fath a gwasanaethau lleol eraill wrth wella bywydau plant; roedd y rhain yn cynnwys ardaloedd chwarae a llyfrgelloedd, gwasanaethau oedd mewn perygl oherwydd cyfyngiadau ariannol. Roedd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn y Bil Plant, i'w gymhwyso i awdurdodau lleol yn ogystal â Llywodraeth Cymru, i gyflawni hawliau plant a phobl ifanc. O ran maeth, nododd RC fod ansawdd yn ogystal â'r math o fwyd yn hanfodol i'r agenda atal, er mwyn osgoi'r canlyniadau hirdymor a oedd yn deillio o ddiet gwael. Cyfeiriodd RC hefyd at drafnidiaeth gyhoeddus am ddim fel cyfle â gwerth uchel i wella bywydau plant a phobl ifanc.

Gan ddiolch i RC am ei chyflwyniad gweledigaethol, atgyfnerthodd JW y synergedd rhwng blaenoriaethau'r Comisiynydd a blaenoriaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru, y byddai'r rhain yn sail i bartneriaeth strategol barhaus. Cafodd RC wahoddiad gan JW i aros ar gyfer cyflwyniad y Llysgenhadon Ifanc, gan fod y blaenoriaethau ar y cyd yn gweddu i'w gilydd.

PHW 2023.07.27/4	**Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**
PHW 2023.07.27/4.1	**Llysgenhadon Ifanc**

Croesawodd RBW y Llysgenhadon Ifanc i'r cyfarfod, gan nodi pa mor werthfawr ydoedd iddynt glywed yn uniongyrchol gan RC am ei blaenoriaethau. Roedd y cyfnod preswyl wedi rhoi cyfle gwych i drafod a blaenoriaethu'r pynciau i'w cyflwyno i'r Bwrdd; fel erioed, mynegodd RBW ei balchder am y ffordd y datblygodd y Llysgenhadon Ifanc eu blaenoriaethau, gan ddefnyddio eu profiad byw i'w harwain. Nododd KY natur gadarnhaol a thrawiadol y digwyddiad adborth a'r lefelau uchel o egni a brwdfrydedd yn yr ystafell; cafodd ei hysbrydoli gan y trafodaethau cyfoethog ac roedd yn falch o'r holl Lysgenhadon Ifanc am eu cyfraniadau.

Gwahoddodd RBW gynrychiolwyr y Llysgenhadon Ifanc i gyflwyno eu trafodaethau a'u dull o gytuno ar y tri mater blaenoriaeth. Yna clywodd y Bwrdd gan yr holl gynrychiolwyr, a gadarnhaodd mai'r tri mater blaenoriaeth oedd:

WEDI'I GADARNHAU

- Iechyd Meddwl a Llesiant
- Camddefnyddio Sylweddau
- Iechyd Rhywiol a Pherthnasoedd Iach

O ran iechyd meddwl a llesiant, nododd y cynrychiolwyr bod lefelau pryder yn gwaethygu ymhlith pobl ifanc, yn dilyn pandemig COVID-19; roedd hyn wedi cael effaith andwyol ar fywydau llawer o blant a phobl ifanc, gan gynnwys yr effaith yn deillio o salwch a cholli anwyliaid. Roedd rôl yr opsiynau cymorth cymunedol a rhagnodi cymdeithasol wrth adeiladu gwytnwch yn sylweddol ac roedd yr angen yn parhau.

O ran camddefnyddio sylweddau, roedd y goblygiadau risg uchel a'r stigma'n cyfuno i leihau cydymdeimlad tuag at ddefnyddwyr. Roedd risgiau mwy diweddar o gam-drin sylweddau, gan gynnwys defnyddio e-sigarets, yn achosi argyfwng iechyd cyhoeddus; roedd y ffaith ei fod yn cael ei ystyried yn 'ffasiynol' yn ei gwneud yn anodd cyfleu negeseuon am 'niwed iechyd'.

O ran iechyd rhywiol a pherthnasoedd iach, roedd y cynnydd mewn clefydau a drosglwyddir yn rhywiol yn bryder mawr, er bod gostyngiad mewn beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau yn cael ei gydnabod. Roedd pryderon am y pwysau ar bobl ifanc i rannu delweddau personol a'r diffyg ymwybyddiaeth ynghylch sut i gael help yn erbyn cam-driniaeth.

Yna cafodd gwaith ei wneud i flaenoriaethu'r tri mater hyn sef: iechyd rhywiol a pherthnasoedd iach; camddefnyddio sylweddau; ac iechyd meddwl a llesiant eu blaenoriaethu yn y drefn honno.

Gan roi adborth ehangach ar y cyfnod preswyl, croesawodd y Llysgenhadon Ifanc y cyfleoedd mynych ar gyfer sesiynau grwpiau llai, y ffaith ei fod ar gyfer Cymru gyfan a bod y rhyngweithio wedi bod mor gadarnhaol.

Diolchodd JW i'r Llysgenhadon Ifanc am eu cyflwyniad trawiadol ac am y rhesymeg glir yn sail i'w dewis o flaenoriaethau; yna gwahoddodd sylwadau.

Cafodd y Llysgenhadon Ifanc eu llongyfarch gan NL ar eu gwaith drwy gydol y cyfnod preswyl; roedd y blaenoriaethau yn atseinio gyda'r Strategaeth Hirdymor a byddent yn rhan amlwg mewn gwaith ar draws y sefydliad cyfan.

Mynegodd SA ddiddordeb yn y broses a ddefnyddiwyd i ganfod y blaenoriaethau, gan nodi'r ymgysylltu ar lefel gymunedol leol a phwysigrwydd y dull hwn.

Diolchodd IB hefyd am gyflwyniad addysgiadol. Soniodd am ddiffyg unrhyw ddata, ac eithrio anecdotaidd, ar ddefnyddio e-sigarets a'r gwaith sydd ar y gweill i fynd i'r afael â hyn. Gofynnodd am gyngor ar y ffordd orau o gael gafael ar farn a sylwadau pobl ifanc ar ddefnyddio e-sigarets a chroesawodd fewnbwn y Llysgenhadon Ifanc ar hyn. Byddai IB yn archwilio hyn y tu allan i'r cyfarfod.

WEDI'I GADARNHAU

Camau Gweithredu: IB

Croesawodd MM y cyflwyniad ac roedd yn edrych ymlaen at weld y Llysgenhadon Ifanc yn parhau i helpu i lunio agenda Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfeiriodd AW am y defnydd o e-sigarets ac atal gwerthu cynhyrchion e-sigarets i blant a phobl ifanc o dan oed.

Diolchodd JW eto i'r Llysgenhadon Ifanc am eu cyflwyniad ysbrydoledig, addysgiadol a brwdfrydig. Yna gofynnodd i RC wneud unrhyw sylwadau terfynol. Cafodd y Llysgenhadon Ifanc eu llongyfarch gan RC ar gyfleu eu blaenoriaethau mewn ffordd mor strwythuredig: roedd yn edrych ymlaen at glywed mwy am y ffordd yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymateb i'r materion a godwyd. O ran e-sigarets, roedd ganddi hi bryderon tebyg a nododd y risg o e-sigarets yn ennill tir mewn ysgolion cynradd, yn ogystal ag ysgolion uwchradd. Cadarnhaodd RC fod e-sigarets yn flaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg yn ei Swydd a'i bod yn croesawu dull o weithredu ar y cyd.

Caeodd JW yr eitem drwy ddiolch i RBW am ei harweiniad arbenigol ar y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc; roedd hyn yn parhau i fynd o nerth i nerth ac roedd yn gobeithio y byddai RBW yn ymfalchïo'n fawr yn ei gyflawniadau. Cadarnhaodd JW y byddai'n ysgrifennu at y Llysgenhadon Ifanc ar ran y Bwrdd, gan nodi ymateb y Bwrdd i'w blaenoriaethau

Camau Gweithredu: JW

PHW 2023.07.27/4.2	**Adroddiad y Prif Weithredwr**

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr ar ran TC, tynnodd NL sylw at:

- Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19. Roedd Dr Quentin Sandifer wedi cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru yng ngwrandawiad cyhoeddus Modiwl 1 ar 4 Gorffennaf. Diolchodd NL i Dr Sandifer, tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r tîm cyfreithiol am eu gwaith ar Fodiwl 1. Cadarnhaodd fod penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno datganiad i gloi, yn ogystal â'r eglurhad a ddarparwyd eisoes, ar fin cael ei wneud.

- Cyfarfod diwedd blwyddyn cadarnhaol ac adeiladol iawn y Cyd-dîm Gweithredol gyda Llywodraeth Cymru ar 27 Mehefin 2023. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar y sefyllfa diwedd blwyddyn ac amodau atebolrwydd, ynghyd â'r cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau gweinidogol a risgiau/lliniaru risg yn 2023/24. Diolchodd NL i'r staff eithriadol ar draws y sefydliad am eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb. Byddai cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2023 yn cynnwys briff manylach.

- Yr adolygiad cynhwysfawr o Gynllun Ymateb i Argyfwng Iechyd Cyhoeddus Cymru; roedd hwn yn ofyniad statudol, yn adlewyrchu rôl y sefydliad fel ymatebydd Categori Un.

WEDI'I GADARNHAU

Gan ddiolch i NL am y diweddariad, gwahoddodd JW aelodau eraill o'r Bwrdd i wneud sylwadau.

- I ychwanegu manylion at Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19, cadarnhaodd PV fod disgwyl derbyn Adroddiad Modiwl 1 yn 2024. Roedd modiwlau 2 a 2b yn canolbwyntio ar benderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol Llywodraeth Cymru, ac felly roeddent yn berthnasol iawn i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y gwaith cynllunio ar gyfer y modiwlau hyn ar y gweill, ynghyd â'r cynllunio a'r paratoi ar gyfer Modiwlau 3, 4 a 5. Rhoddodd yr amserlen ar gyfer y Modiwlau hyd at 2024.

- Rhoddodd SA ddiweddariad ar lansio Llwyfan Datrysiadau Ecwiti Iechyd Cymru (Platfform Datrysiadau) yn ddiweddar; porth byw oedd hwn wedi'i strwythuro i adlewyrchu pum prif benderfynydd iechyd Sefydliad Iechyd y Byd; byddai'n llywio ac yn cefnogi'r gwaith o lunio polisïau, gan ganolbwyntio ar y conglfeini ar gyfer ffyrdd iach o fyw. Byddai'r Llwyfan yn parhau i esblygu, wedi'i lywio drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a byddai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd yn goruchwylio'r cynnydd.

Camau Gweithredu: SG/SA/IB

Croesawodd KE y Platfform Datrysiadau fel 'adnodd gwych i Gymru'. Holodd ynghylch y broses o ddal gwybodaeth am y defnydd ohono a mesur llwyddiant. Cadarnhaodd SA fod y broses ddatblygu barhaus yn cynnwys mesur a gwerthuso. Nododd IB y dull digidol a fabwysiadwyd, gan wneud y safle'n hawdd ei ddefnyddio ac y gellir ei addasu i anghenion sy'n datblygu.

- O ran y Cynllun Ymateb Brys, cyfeiriodd SG at yr angen i sicrhau ymwybyddiaeth o'r Cynllun ar draws y sefydliad; soniodd am yr Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 hyd yma; roedd hyn wedi dangos yr angen am barodrwydd yn y dyfodol, yn enwedig o ran atal pandemig. Nododd SC hefyd y cynhyrchwyd Cynllun Strategol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU yn ddiweddar; ceisiodd sicrwydd ynghylch ymgysylltiad Cymru â'r gwaith hwn a'r gallu i weld y gwaith.

  Ymatebodd MK i'r ddau gwestiwn hyn. O ran y Cynllun Ymateb Brys, cadarnhaodd lefel dda o bresenoldeb mewn sesiynau briffio ar gyfer staff a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf; byddai hyfforddiant pellach yn canolbwyntio ar rolau penodol ac yn ymgorffori'r gofynion ar sail 'busnes pawb'. Roedd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gynnwys modiwl mewn hyfforddiant statudol a gorfodol, ynghyd â hyfforddiant sefydlu.

  O ran gweithio gyda'r Asiantaeth, cadarnhaodd MK bod gwaith ar y gweill i hwyluso cydweithredu ar draws pedair gwlad y DU. Roedd hyn yn cynnwys Bwrdd Llywodraeth Ddatganoledig, a oedd wedi cwrdd sawl gwaith, a chytundeb rhannu data rhwng y cenhedloedd datganoledig a'r Asiantaeth.

WEDI'I GADARNHAU

Ymhlith y ffrydiau gwaith eraill oedd ar y gweill roedd un ar ymateb brys ac un arall ar lwybrau cyfathrebu cynnar.

Croesawodd SG y diweddariad; roedd yn awyddus i sicrhau ymgysylltiad llawn Cymru ag unrhyw ddatganiadau a wnaed mewn dogfennau polisi pedair gwlad y DU. Cynigiodd JW Nodyn Briffio ar gyfer y Bwrdd, yn dangos yr ystod o waith sy'n cael ei wneud ar draws pedair gwlad y DU.

Camau Gweithredu: MK

Yn olaf, cadarnhaodd JW y byddai'n ysgrifennu i longyfarch tîm Canolfan Firoleg Arbenigol Cymru ar sicrhau ei dynodi gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn Ganolfan Genedlaethol y Ffliw. Ffurfiolodd hyn ei statws ac roedd yn cydnabod cyfraniad y tîm i'r gymuned wyliadwriaeth fyd-eang.

Camau Gweithredu: JW

Derbyniodd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chymryd sicrwydd** o'r diweddariad a roddwyd.

PHW 2023.07.27/4.3	**Trosolwg Iechyd Cyhoeddus Diweddaraf**

Gan ddefnyddio sleidiau Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd y Cyhoedd (y Dangosfwrdd), tynnodd IB sylw at y canlynol:

- Dim newidiadau mawr i'w nodi ynghylch clefydau trosglwyddadwy gan gynnwys COVID-19;
- Dim gostyngiad yn yr amseroedd atgyfeirio i driniaeth, gan gynnwys dim gostyngiad o ran dros 36 wythnos o oedi, er gwaethaf y disgwyliad o ostyngiad yn ystod misoedd yr haf
- Parhad cyfraddau marwolaethau gormodol yn ôl y disgwyl ar gyfer misoedd yr haf;
- O ran ymddygiad iach, rhywfaint o welliant mewn ymddygiad ysmygu; Dywedodd IB fod angen trin hyn â gofal, o ystyried profiad blaenorol o amrywio, yn hytrach na'i weld fel dangosydd o welliant parhaus;
- O ran penderfynyddion ehangach ffactorau iechyd, er bod rhywfaint o ostyngiad i'w groesawu yng nghyfradd y twf, arhosodd y lefelau yn uchel iawn. Cyfeiriodd at weithdy diweddar a gynhaliwyd gan SA ar gostau byw a chynnydd y gwaith hwnnw;
- Yn olaf, o ran anweithgarwch economaidd am reswm, tynnodd IB sylw at ymarfer 'archwilio dwfn' diweddar gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gynaliadwyedd cyllidol. Nododd canfyddiadau allweddol nad rhestrau aros sy'n gyrru anweithgarwch economaidd, gan fod y rhain i raddau helaeth yn cynnwys pobl 65 oed a hŷn, neu'r rhai mewn gwaith. Yn hytrach, mae'n debyg bod y rhesymau'n canolbwyntio ar oedolion iau ac yn cynnwys: iechyd meddwl a llesiant; effaith Covid hir posibl; a pheth tystiolaeth o effaith amodoldeb tynnach elfennau o'r system les sy'n ymwneud â diffyg salwch.

WEDI'I GADARNHAU

Cysylltodd IB y canfyddiadau hyn ag Adroddiad y Sefydliad Iechyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar fynychder clefydau a rhagolygon.

- Parhaodd y gwaith yn ymwneud â diabetes, ynghyd â gwaith cardiofasgwlaidd a chanser. Roedd hyn yn dechrau'r hwb i'r symudiad i leihau salwch hirdymor trwy weithredu ar y cyd. Roedd trafodaethau diweddar gyda Phrif Weithredwyr y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol wedi helpu i ysgogi cydnabyddiaeth o'r effeithiau ehangach a hirdymor. Byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio'r cyfle hwn o fwy o ddiddordeb a dealltwriaeth o'r angen i fynd i'r afael â chyflyrau hirdymor i weithio gyda Llywodraeth Cymru, y GIG a phartneriaid awdurdodau lleol i helpu i ysgogi gwelliannau. Mae'n debyg y byddai'r ffocws cychwynnol yn canolbwyntio ar yr epidemig diabetes.

Cyn gwahodd cwestiynau, mynegodd JW ei diolch i IB a'i dîm am eu gwaith yn dylunio a hyrwyddo'r Dangosfwrdd; roedd hyn wedi bod yn gatalydd ar gyfer gweithredu ar draws y system.

Yna, gwahoddodd JW gwestiynau a sylwadau.

Pwysleisiodd MM werth y cyflwyniad. Nododd fod y data'n ymwneud yn bennaf ag oedolion; gan ystyried y trafodaethau â'r Llysgenhadon Ifanc, gofynnodd am gynnwys data ar blant a phobl ifanc. Roedd MM hefyd yn croesawu diddordeb a mewnbwn awdurdodau lleol. Cadarnhaodd IB fod Prifysgol Caerdydd wedi cynnal arolwg hanner blynyddol ar blant; roedd hyn bellach yn cynnwys dangosfwrdd sy'n benodol i ddata plant; byddai'n rhannu'r linc i'r wybodaeth honno ac yn ystyried cynnwys dyddiad penodol yn y Dangosfwrdd.

Camau Gweithredu: IB

Nododd KY y sefyllfa wahanol ar draws Cymru o ran cyfraddau brechu plant; holodd pam roedd y nifer sy'n manteisio ar hyn yn ymddangos yn well ym Mhowys nag mewn rhannau eraill o Gymru. O ran budd-daliadau, nododd KY fod cyfarfod diweddar gyda Cyngor ar Bopeth wedi tynnu sylw at yr incwm a ddaw i Gymru drwy fudd-daliadau. Gallai hyn lywio'r gwaith ar yr argyfwng costau byw. Cytunodd IB a SA i ymateb i'r pwyntiau hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Camau Gweithredu: SA ac IB

PHW 2023.07.27/4.4	**Adroddiadau Integredig ar Berfformiad a Chyllid (Mis 3)**

Gan gymryd bod yr adroddiadau wedi'u darllen, gwahoddodd NL y cydweithwyr gweithredol i dynnu sylw at unrhyw bwyntiau allweddol, gan nodi bod y fformat yn parhau i gael ei fireinio.

<u>Llywodraethu Corfforaethol</u>

Adroddodd PV ar y canlynol:

WEDI'I GADARNHAU

- Bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Rheolau Sefydlog wedi'u diweddaru i GIG Cymru.
- Gwaith parhaus ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
- Adolygiad o dempledi adrodd pwyllgorau, gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn treialu'r newidiadau arfaethedig.
- Dyluniad Rhaglen Ddatblygu ffurfiol y Bwrdd.
- Proses Asesu Strwythuredig 2022/23.

Cyllid

Tynnodd AW sylw at y pwyntiau canlynol:

- Cwblhau'r gwaith o osod cyllideb 2022/23 a Chwarter 1 2023/24.
- Nodi gwarged o £63,000 ar ddiwedd Chwarter 1 oherwydd cyfraddau llog uwch na'r disgwyl.
- Y sefyllfa ariannol fanwl gan y Gyfarwyddiaeth, fel y nodir yn yr adroddiad.
- Gwaith ar y gweill gyda phob Cyfarwyddiaeth i adolygu cynlluniau gwariant ar gyfer 2023/24 fel rhan o'r broses graffu a sicrwydd.

Gofynnodd MM am gadarnhad o swm yr arian nad oedd wedi'i gadarnhau eto. Dywedodd AW fod dwy ffrwd ariannu disgwyliedig: (i) sgrinio ac adfer a (ii) dyraniad grant o £500,000. Gyda'i gilydd, cyfanswm y rhain oedd £1.5m. Parhaodd trafodaethau hefyd ar y sefyllfa o ran dyfarniad cyflog.

Y gweithlu

Cyfeiriodd NL at y canlynol:

- Gostyngiad pellach yng nghyfraddau salwch ac absenoldeb o 2.94% i 2.81%. Roedd gwelliannau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf mewn microbioleg a chyfraddau salwch yn y maes sgrinio wedi cyfrannu at y duedd hon.
- Roedd cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn 91%
- Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio ar gyfweliadau ymadael a'r rhesymau pam mae staff yn gadael y sefydliad.

Croesawodd MM y cynnydd mewn cyfraddau datgelu yn erbyn nodweddion gwarchodedig; nododd ymgysylltiad Rhwydweithiau Staff yn y materion hyn ac amrywiaethau pwysig eraill o ran y gweithlu.

Diogelu Iechyd a Sgrinio

Tynnodd MK sylw at y canlynol:

- Gostyngiad yn y tueddiad o ran COVID-19, o ran canfod a derbyn i'r ysbyty. Parhaodd amseroedd canlyniadau ar gyfer profion labordy poeth a phrofion nad oeddent yn rhai brys i fodloni safonau cydymffurfio.
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru ynghylch Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, gan ddisgwyl cyhoeddiad ffurfiol ar safonau

WEDI'I GADARNHAU

a llwybrau blynyddol, yn unol â chynllun gweithredu'r DU. Nododd MK yr amrywiad a ganfuwyd ar draws byrddau iechyd a'r gwaith sydd ar y gweill ar gyfer Byrddau Iechyd unigol lle bo angen.

- O ran sgrinio, roedd gwasanaethau Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) a Sgrinio'r Fron Cymru (BSW) yn parhau i wella. Parhaodd y gwaith ar opsiynau datblygu ar gyfer trawsnewid gwasanaethau o ran DESW a BSW, yn seiliedig ar wella hygyrchedd a darpariaeth. Byddai gweithredu llwybr risg isel DESW o fis Mehefin 2023 yn darparu sgrinio dwy flynedd; roedd hyn yn effeithio ar 25% o'r boblogaeth gymwys a byddai'n sicrhau gwelliannau mewn amseroedd aros. Byddai defnyddio cyfleusterau sgrinio lleol, gan gynnwys Aberpennar, sy'n darparu gwasanaethau mewn lleoliad lleol gyda hyblygrwydd o ran yr adeilad, yn gwella mynediad ymhellach. O ran BSW, roedd cyfyngiadau llif/capasiti'r system yn parhau i effeithio ar hyd cylchoedd; parhaodd y gwaith gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i wneud y gorau o waith cynllunio'r gweithlu ac ystyried rolau amgen.

Croesawodd SG y diweddariad a holodd am ddatblygiad pellach yr opsiynau adnoddau cymunedol fel Aberpennar, i ddarparu ar gyfer gwasanaethau eraill. Cytunodd MK i ddarparu adroddiad pellach ar hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Camau Gweithredu: MK

Nododd RBW y canlynol:

- Gostyngiad o 28 mewn digwyddiadau a gofnodwyd; roedd 96% o'r digwyddiadau'n ymwneud â Gwasanaethau Diogelu a Sgrinio Iechyd. Roedd sicrwydd ar y rhain yn uchel, gyda lefel y niwed a aseswyd yn isel neu ddim niwed.
- Parhaodd y gwaith ar dargedau cau, gyda 65% ar hyn o bryd yn cau o fewn 30 diwrnod; roedd hyn yn cynrychioli sefyllfa well na'r hyn oedd ym mis Mai.
- Dim digwyddiadau a adroddwyd yn genedlaethol, dim 'dim syrpréis', dim achosion unioni a dim hawliadau newydd.
- Ymchwilio i un achos o dan ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd; roedd y prosesau oedd ar waith wedi gweithio'n dda, gyda chau'r achos.

Croesawodd MM y diweddariad ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), gan nodi cyflawni yn erbyn dros 92% o'r cerrig milltir; gofynnodd am ragor o fanylion yn erbyn y cerrig milltir hynny sy'n destun oedi/newid, lle roeddent yn ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant. Roedd hyn i'w nodi, o ystyried trafodaethau cynharach.

Rhoddodd SA fanylion am y cerrig milltir hynny oedd yn ymwneud â'i chyfarwyddiaeth a chytunodd NL i ddarparu briff i gydaelodau'r Bwrdd. Roedd nifer o geisiadau am newid yn canolbwyntio ar allu partneriaid i fwrw ymlaen, a byddai'r briff yn nodi'r rhain.

Camau Gweithredu: NL

WEDI'I GADARNHAU

Wrth gloi'r drafodaeth, diolchodd JW i'r Tîm Gweithredol am eu diweddariadau, gan nodi'r briffiau ychwanegol.

Trafododd y Bwrdd y papur a **chymryd sicrwydd** o'i gynnwys a'r trafodaethau.

PHW 2023.07.27/4.5	**Egwyl**
PHW 2023.07.27/4.6	**Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau**

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

Yn ogystal â'r Adroddiad a ddarparwyd, tynnodd NE sylw at dderbyn barn flynyddol derfynol 2022/23 y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan nodi'r gyfradd sicrwydd resymol.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Nododd SG fod cyfarfod mis Gorffennaf y pwyllgor wedi cynnwys diweddariad ar raglen frechiad ffliw y staff. Nododd yr anhawster o ran cael gafael ar ddata ar hyn a gofynnodd a allai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ei ystyried.

Rhoddodd SG adroddiad hefyd ar gyflwyno'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol; roedd y Pwyllgor wedi ystyried hyn yn fanwl ac wedi cymryd sicrwydd o'r ystyriaeth honno.

Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd

Rhoddodd SG ddiweddariad ar yr ystyriaeth ffurfiol o'r Strategaeth Ddigidol a Data a'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso; roedd y pwyllgor wedi cymeradwyo'r ddwy strategaeth, gan nodi eu bod yn sail i'r Strategaeth Tymor Hir; roedd y ddwy yn ddogfennau deinamig a byddent yn destun mireinio parhaus.

Diolchodd JW i SC a gwahoddodd IB i wneud sylw ar y ddwy strategaeth; cadarnhaodd fod rhanddeiliaid allweddol wedi cymryd rhan yn natblygiad pob strategaeth, gan weithio o fewn y ffiniau adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Ni chafodd adnoddau ychwanegol eu priodoli i'r un ohonynt, er i IB atgoffa'r Bwrdd o'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer ymchwil a gwerthuso; byddai gwaith pellach yn canolbwyntio ar gyllid sydd ar gael o ffynonellau allanol, i gefnogi rôl arweinyddiol systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru, a blaenoriaethu gofynion mewnol.
Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o ystyriaeth a chymeradwyaeth y pwyllgor o'r Strategaeth Ddigidol a Data a'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.

Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl

Gwnaeth MM sylw ar: yr 'archwiliad dwfn' i ddiwylliant a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf; cyfraniad cadarnhaol y Rhwydweithiau Staff a lefel yr ymgysylltiad â'r

WEDI'I GADARNHAU

rhain. Roedd y pwyllgor hefyd wedi archwilio cwynion o ran y Gymraeg, gan gynnwys yr hyn a gafwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Rhoddodd MM sicrwydd i'r Bwrdd y byddai'r camau a gymerwyd yn datrys y materion.

Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth hon a **chymryd sicrwydd** o'r diweddariadau a ddarparwyd.

PHW 2023.07.27/4.7	**Risgiau Strategol**

Yna addasodd JW yr agenda i gymryd Eitem 5.3 ar yr agenda ar y pwynt hwn, o ystyried y synergedd ag Eitem Agenda 4.7.

Eitem Agenda 5.3: Disgrifyddion Risg Strategol

Cafodd y Bwrdd ei atgoffa gan RBW o'r gwaith drwy gydol 2022/23, fel tîm Gweithredol ac fel Bwrdd llawn, i adnewyddu'r dulliau gweithredu o ran parodrwydd i dderbyn risg strategol. Cyfeiriodd at y papurau'n cefnogi'r eitem hon a nodi:

- Yr eglurder a ddarperir gan y fformat;
- Y disgrifydd a'r offer parodrwydd i dderbyn risg a ddefnyddir i bennu lefel y risg;
- Y rhesymeg a'r cynigion roedd y Tîm Gweithredol ac, wedi hynny, y Bwrdd llawn, wedi eu hystyried.

Yna, drwy RBW cafodd y Bwrdd grynodeb lefel uchel o'r parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer pob Risg Strategol a phenderfynydd pob un ohonynt; yna, gwahoddodd sylwadau a chwestiynau:

Ystyriodd KE y trafodaethau gyda'r Llysgenhadon Ifanc yn gynharach yn y cyfarfod a gofynnodd a oedd y Risgiau Strategol yn ymgorffori'r risgiau a nodwyd yn eu blaenoriaethau. Nododd IB fod y parodrwydd i dderbyn risg a oedd yn cael ei gynnig yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac y byddai hyn yn esblygu dros amser; cyfeiriodd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023/26 at flaenoriaethau'r Llysgenhadon Ifanc a gallai fod yn destun mapio risgiau strategol a chorfforaethol. Croesawodd KE yr eglurhad hwn.

Ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd y disgrifyddion parodrwydd i dderbyn risg.

Eitem Agenda 4.7 Risgiau Strategol

Cyfeiriodd RBW at gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2023 a chymeradwyaeth Cyfarwyddwyr y Bwrdd o'r Risgiau Strategol. Roedd ymarfer mapio dilynol wedi cynhyrchu'r Gofrestr Risg Strategol, gyda chamau gweithredu a rheolaeth wedi'u nodi ar gyfer pob un, ynghyd â sgôr Coch, Oren, Gwyrdd briodol; roedd RBW yn falch o nodi dim graddfeydd coch o gwbl. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i adnewyddu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

WEDI'I GADARNHAU

Diolchodd JW i RBW am ei harweinyddiaeth ar yr agenda ynghylch risg; roedd hwn yn faes cymhleth o ran atebolrwydd a llywodraethu corfforaeth a'r Bwrdd ac yn un sy'n symud yn gyflym, a bu RBW yn drylwyr yn ei ffocws o ran y materion risg hynny a oedd yn gofyn am sylw'r Bwrdd.

Ystyriodd y Bwrdd y Gofrestr Risg Strategol a chymryd **sicrwydd** ar reoli risg o fewn y sefydliad.

PHW 2023.07.27/5	**Eitemau i'w Cymeradwyo**
PHW 2023.07.27/5.1	**Adroddiad Blynyddol 2022/23**

Ar ran HG, rhoddodd PV ddiweddariad ar Adroddiad Blynyddol 2022/23, gan nodi'r gofyniad i gynhyrchu a chyflwyno adroddiad o'r fath i Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn adroddiad 2022/23 ar 12 Mai 2023; byddai'r Bwrdd yn cael Adroddiad Blynyddol cyhoeddus, i'w lansio yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
Ychwanegodd NE fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried adroddiad drafft ac Adroddiad drafft terfynol o Gyfrifon Blynyddol ac Atebolrwydd ac wedi argymell y rhain i'r Bwrdd i'w cymeradwyo'n derfynol.

Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth hon a **chymeradwyo'r** Adroddiad Blynyddol.

PHW 2023.07.27/5.2	**Datganiad Llesiant**

Nododd SA y cyfrifoldeb o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol i gynhyrchu Datganiad Llesiant. Amlinellodd y ffordd y byddai'r amcanion yn helpu'r sefydliad i gyflawni'r nodau, ynghyd ag ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y broses honno. Cyfeiriodd at yr Atodiad; disgrifia hyn y berthynas benodol â nodau llesiant.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad Llesiant a chymryd **sicrwydd** bod y Strategaeth Hirdymor yn ymgorffori gofynion y Datganiad Llesiant.

PHW 2023.07.27/5.3	**Y parodrwydd i dderbyn risg**

Trafodwyd yr eitem hon yn gynharach yn yr agenda cyn eitem 4.7.

PHW 2023.07.27/5.4	**Adolygiad o Gyfarfodydd Preifat 2022/23**

Wrth gyflwyno'r eitem hon, cadarnhaodd JW fwriad y Bwrdd i gynnal cymaint o'i fusnes â phosibl yn y sesiwn gyhoeddus. Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo Protocol ffurfiol i ategu unrhyw drafodaethau mewn sesiwn breifat; roedd hyn yn destun adolygiad blynyddol a diolchodd JW i MM, PV ac LB am eu cymorth yn adolygiad 2022/23.

Amlinellodd PV y dull a gymerwyd i adolygu'r Protocol presennol a'r rhesymeg dros y newidiadau arfaethedig. Roedd y rhain yn ymwneud â mireinio'r darpariaethau presennol, yn hytrach nag unrhyw newid mawr, gan fod y Bwrdd wedi cymhwyso'r Protocol drwy gydol 2022/23.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** ar reolaeth busnes y Bwrdd yn 2022/23 yn unol â'r Protocol presennol; **nododd** ganlyniad yr adolygiad o'r Protocol ar ddiwedd

WEDI'I GADARNHAU

2022/23; **cymeradwyodd** y newidiadau a awgrymwyd i gynnal busnes mewn sesiwn breifat; a **nododd y** bwriad i gyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar ddiwedd 2023/24.

Camau Gweithredu: JW/PV

PHW 2023.07.27/5.5	**Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023**

Cymeradwyodd y Bwrdd y Cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Yna fe wnaeth y Bwrdd ystyried a **chymeradwyo'r** Cofnod o Gamau Gweithredu.

PHW 2023.07.27/6	**Eitemau i'w Nodi**
PHW 2023.07.27/6.1	**Adroddiad y Cadeirydd ar faterion a gymerwyd mewn sesiwn breifat (25 Mai 2023)**

Nododd y Bwrdd Adroddiad y Cadeirydd ar faterion a gymerwyd mewn sesiwn breifat (25 Mai 2023).

PHW 2023.07.27/6.2	**Blaengynllun y Bwrdd**

Cyfeiriodd JW at FlaenGynllun diwygiedig Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023/24, gyda gwelliannau mewn coch.

Nodwyd y cynllun**.**

PHW 2023.07.27/7	**Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd**

Trefnwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfod nesaf y Bwrdd ar gyfer 18 Medi 2023.

Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

Cyn cau'r cyfarfod nododd JW mai hwn fyddai cyfarfod diwethaf RBW ar y Bwrdd cyn ymddeol. Cyfeiriodd at bortffolio gweithredol helaeth RBW; roedd hyn yn cynnwys rolau corfforaethol mawr yn ymwneud ag asesu a rheoli risg, yr agendâu ansawdd a diogelu a phartneriaethau strategol. Roedd RBW wedi bod yn allweddol wrth sicrhau parodrwydd y sefydliad ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd a chafodd ei gwaith gyda'r Llysgenhadon Ifanc ei ddathlu'n gynharach yn y cyfarfod.

Talodd JW deyrnged benodol i rôl arweinyddiaeth allweddol RBW yn ystod y pandemig, fel un o'r Cyfarwyddwyr Digwyddiadau Strategol; roedd hon wedi bod yn rôl allweddol fel rhan o ymatebion sefydliadol ac arweinyddiaeth systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn ogystal â'r portffolio gweithredol eang hwn, roedd RBW wedi bod yn bennaeth proffesiynol rhagorol ar gyfer y teuluoedd nyrsio a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ar draws y sefydliad; roedd y parch a'r bri i RBW yn y Gynhadledd Nyrsio a Bydwreigiaeth ddiweddar yn dangos ei bod yn uchel ei pharch

WEDI'I GADARNHAU

ar draws y proffesiwn yng Nghymru. Roedd JW yn gobeithio y byddai RBW yn ymfalchïo'n fawr yn ei gyrfa a dymunodd bob llwyddiant iddi ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm

WEDI'I GADARNHAU